NHS
Gwasanaeth Gwaed
a Thrawsblannu'r

Rhoddi byw anhunanol – arennau

Ateb **i'ch cwestiynau**

0300 123 23 23
www.organdonation.nhs.uk

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth os ydych chi'n ystyried bod yn rhoddwr byw anhunanol. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y daflen hon ynghyd â thaflen yr Awdurdod Meinweoedd Dynol *'Gwybodaeth am drawsblaniadau drwy roddwyr byw'*, a'r holl wybodaeth arall a gewch, fel eich bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'n ei olygu i'r rhoddwr byw ac i'r sawl sy'n cael yr organ.

Beth yw'r **Ddeddf Meinweoedd Dynol?**

Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon a Deddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoddi organau a meinweoedd yn y DU. Mae'r rheolau sy'n cael eu datgan gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HCA) yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran pwy a all fod yn rhoddwr aren byw a phwy sy'n cael rhoddi i bwy. Mae hyn yn golygu y gall rhagor o bobl sydd â methiant yr arennau elwa o drawsblaniad gan roddwr byw. Un o'r opsiynau ychwanegol hyn yw rhoddi anhunanol anghyfeiriol.

Fel rhan o'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, rhaid i'r HCA gymeradwyo'r holl lawdriniaethau trawsblannu sy'n cynnwys rhoddwyr byw ar ôl gwneud asesiad annibynnol.

Beth yw **rhoddi anhunanol anghyfeiriol?**

Dyma pryd y mae rhywun yn gwirfoddoli i roi aren i dderbynnydd anhysbys, hynny yw, rhywun nad yw wedi'i gyfarfod o'r blaen ac nad yw'n ei adnabod ef/hi. Ni chaiff rhoddi anhunanol anghyfeiriol ond ei ddefnyddio ar gyfer trawsblannu arennau ar hyn o bryd.

Mantais y math hwn o roddi yw bod claf ar y rhestr drawsblannu'n cael trawsblaniad aren drwy roddwr byw ac mae nifer y cleifion ar y rhestr aros yn gostwng yn gyffredinol. Mae hyn yn ei dro'n cynyddu siawns derbynwyr eraill posib o gael aren gan roddwr marw.

Beth fyddai'n rhaid **i mi ei wneud pe byddwn eisiau bod yn rhoddwr anhunanol?**

Byddai'n rhaid i chi gysylltu â'ch canolfan drawsblannu leol i gael rhagor o wybodaeth. Gallwch ddod o hyd i restr o unedau trawsblannu yn www.organdonation.nhs.uk Ar ôl trafod ymhellach, os penderfynwch fynd ar drywydd y syniad o roddi anhunanol, byddech yn cael eich asesu yn yr un modd yn union ag unrhyw roddwr aren byw arall, yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol (gweler *Allwn i fod yn gyfrannydd aren byw?*). Yn ogystal, ceir asesiad iechyd meddwl gorfodol. Gellir eich gwerthuso naill ai yn eich canolfan drawsblannu leol neu mewn canolfan arall o'ch dewis chi.

A oes unrhyw **ystyriaethau arbennig y dylwn feddwl amdanynt?**

Nid oes gan y rhoddwr anhunanol unrhyw ymlyniad emosiynol gyda derbynnydd arfaethedig y trawsblaniad, ac mae hynny'n golygu nad yw'r rhoddwr yn profi'n uniongyrchol y pleser o weld rhywun annwyl yn elwa o'i rodd. Mae'n bosib na fyddai hyn yn broblem i chi, er hynny, mae'n bwysig eich bod yn ystyried yr agwedd hon yn ofalus cyn penderfynu mynd ymlaen â'r llawdriniaeth.

Sut y **mae'r broses yn gweithio?**

Os yw'r tîm trawsblannu'n cytuno eich bod yn rhoddwr addas, bydd angen i chi wedyn gael eich asesu gan Asesydd Annibynnol (wedi'i hyfforddi a'i achredu gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol), a gall ef/hi argymell i'r HTA y dylai'r llawdriniaeth drawsblannu gael ei chymeradwyo. Os ceir cymeradwyaeth, hynny yw, os bodlonwyd yr holl ofynion cyfreithiol dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol, anfonir eich manylion at Gofrestrfa Drawsblaniadau'r DU. Cyn pen dau ddiwrnod gwaith yn ddiweddarach, caiff y derbynnydd mwyaf addas ar y rhestr drawsblaniadau genedlaethol am aren ei ddewis. Gwneir hyn yn unol â'r un meini prawf a ddefnyddir i ddewis derbynwyr am arennau gan roddwyr marw. Mater i'r rhoddwr yw cynghori pryd y mae ef/hi'n barod i gael ei dderbyn i'r cynllun, fel y gall cymeradwyaeth yr HTA ynghyd â'r llawdriniaeth drawsblannu gael ei chynllunio ar gyfer adeg hwylus. Mae rhoddwyr anhunanol yn rhydd i newid eu meddwl am roddi ar unrhyw adeg cyn y trawsblaniad.

Beth sy'n digwydd unwaith y **bydd derbynnydd arfaethedig wedi'i ganfod ar gyfer fy aren?**

Caiff y llawdriniaeth drawsblannu a llawdriniaeth y rhoddwr eu cynllunio rhwng y canolfannau trawsblannu dan sylw fel y gall yr aren a roddir gael ei thrawsblannu i'r derbynnydd arfaethedig ar yr un diwrnod gyda chyn lleied â phosib o oedi. Mae'r rhoddwr a'r derbynnydd fel arfer yn cael eu llawdriniaethau yn eu canolfan drawsblannu leol a gwneir trefniadau arbennig i gludo'r aren a roddir yn gyflym rhwng y ddwy ganolfan.

Os yw'r rhoddwr anhunanol eisiau cael ei lawdriniaeth mewn canolfan drawsblannu wahanol, efallai y bydd yn bosib gwneud trefniadau eraill. Mae'r trawsblaniad yn debygol o ddigwydd cyn pen dau i dri mis ar ôl canfod derbynnydd priodol, ond bydd yr amser hwn yn amrywio yn unol â nifer o ffactorau.

Mae'n hanfodol cadw'r rhoddwr a'r derbynnydd yn ddienw cyn y llawdriniaethau. Mae'n bosib y bydd cydgysylltwyr rhoddwyr byw yn barod i drosglwyddo gohebiaeth rhwng rhoddwyr a derbynwyr wedyn. Mae hyn yn debyg i'r modd y mae derbynwyr sy'n cael organ o'r rhestr drawsblaniadau genedlaethol yn cadw mewn cysylltiad â theuluoedd rhoddwyr drwy gyfrwng eu cydgysylltwyr trawsblaniadau lleol, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

I gael **gwybodaeth bellach**

Allwn i fod yn gyfrannydd aren byw? Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, Hydref 2004, diweddarwyd Mehefin 2006. Ar gael oddi wrth y Llinell Rhoddwyr 0300 123 23 23 neu www.organdonation.nhs.uk

Gwybodaeth am drawsblaniadau drwy roddwyr byw, yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, diweddarwyd Hydref 2007. Ar gael oddi wrth eich Uned Drawsblaniadau Leol neu www.hta.gov.uk

Canllawiau'r DU ar gyfer Trawsblaniadau Arennau drwy Roddwyr Byw, Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain/ Cymdeithas yr Arennau, ail rifyn, Ebrill 2005. Ar gael oddi ar www.bts.org.uk